Eisteddfod yr Ysgol

Dydd Iau, Mawrth 5ed cynhaliwyd ein heisteddfod ysgol flynyddol. Bu llawer o baratoi ymlaen llaw ac roedd pawb yn edrych ymlaen i wneud eu gorau dros eu tŷ. Croesawyd Mr Llŷr Meredith, Miss Nerys Davies a Miss Carys Davies atom fel beirniaid eleni ac aeth y dasg o gadw sgôr i Mr Steffan Tudor. Wrth i'r cystadlu ddechrau gwelwyd y beirniaid yn dechrau chwysu ac nid oedd yn waith hawdd dyfarnu'r wobr gyntaf mewn amryw gystadleuaeth. Cafodd Mrs Nia Lewis y gwaith anodd o gyfeilio drwy'r dydd a diolchwn iddi am ei chymorth parod. Ar ôl diwrnod o gystadlu brwd cyrhaeddwyd uchafbwynt yr ŵyl sef seremoni'r cadeirio. Bu'r beirniaid mewn cryn benbleth ynglŷn â theilyngdod y gystadleuaeth ond o'r diwedd rhanwyd y wobr rhwng Ben Billing a Ffion Jones. Llongyfarchiadau calonog i'r ddau fardd ifanc. O'r diwedd daeth y foment fawr, sef cyhoeddi'r tŷ buddugol ac eleni cipiwyd y darian gan Stewi.

Darlith ddiddorol

Ymwelodd Dr Ian Robinson â'r ysgol yn ddiweddar i ddiddori'r plant gyda hanesion am ei deithiau o gwmpas y byd. Cafwyd orig ddifyr iawn yn ei gwmni gyda'r plant yn dysgu llawer o ffeithiau newydd. Diolch iddo am roi o'i amser.